**Ysgol Gymunedol Peniel**
**Polisi Cyngor Ysgol**

**Nod**
Fel ysgol rydym yn cydnabod pwysigrwydd o wrando ar bob plentyn.

Mae Cyngor Ysgol yn rhoi'r cyfle i'r plant fynegi barn ar agweddau o fywyd yr ysgol.

**Aelod Staff Dynodedig Cyngor Ysgol** = Mrs Bethan Phillips

**Amcanion**
1. Sicrhau bod y disgyblion yn helpu i wneud yr ysgol yn gymuned hapus.
2. Sicrhau bod y disgyblion yn deall a pharchu safbwyntiau gwahanol a dysgu sut i gyfaddawdu.
3. Datblygu sgiliau cyfathrebu y disgyblion a'r staff e.e. gwrando ar eraill a chydnabod eu hunain fel unigolion o werth gyda'r hawl i fynegi barn a chyfrannu mewn trafodaethau.

**Canllawiau**
1. Ar ddechrau pob blwyddyn, bydd pob blwyddyn Ysgol, yn un cynrychiolydd (Bl2 i Fl5) a dau gynrychiolydd o flwyddyn 6, trwy bleidlais gudd. Bydd darpar aelodau yn cynnig eu hunain i weddill plant y flwyddyn gan egluro beth sydd ganddynt i'w gynnig i'r swydd.

2. Byddwn yn annog y disgyblion i ddewis un bachgen ac un merch.

3. Atgoffa'r plant eu bod i bleidleisio am y person gorau i'r swydd beth bynnag ei ryw, allu, hil, anabledd, cefndir ayyb.

4. Y Cyngor Ysgol sydd i benodi Cadeirydd o fysg yr aelodau.

5. Aelodau'r Cyngor Ysgol i benodi Ysgrifennydd – nid yw'n angenrheidiol i'r Ysgrifennydd fod yn aelod o'r Cyngor, ond os felly, ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau.

6. Cynnal cyfarfodydd Cyngor Dosbarth / Cyngor Ysgol yn rheolaidd.

7. Bydd penderfyniadau a dymuniadau'r Cyngor Ysgol yn cael eu cyflwyno i'r pennaeth (drwy'r aelod dynodedig o blith y staff sydd a chyfrifoldeb am y Cyngor Ysgol ). Bydd yr aelod dynodedig a'r pennaeth yn penderfynu a ydynt yn ymarferol / dymunol / fforddiadwy ayyb.

8. Bydd yr aelod dynodedig ar y cyd gyda'r pennaeth yn rhoi eglurhad i'r Cyngor Ysgol os bydd cais yn cael ei wrthod gan ymhelaethu ar y rhesymau pam nad yw'n bosibl.
9. Rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor Ysgol i gyfarfod â Llywodraethwyr yr ysgol i gyflwyno eu gweithgareddau blynyddol a chynnal trafodaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.

10. Sicrhau fod cynrychiolwyr o'r Cyngor Ysgol yn rhan o drafodaethau gyda swyddogion y sir pan fydd penderfyniadau yn berthnasol iddynt hwy.

**Casgliad**
Drwy Cyngor Ysgol daw'r disgyblion i ddysgu sut i gyd-weithio mewn tîm, i ddeall safbwyntiau eraill ac i gyfaddawdu. Dônt i ddatblygu hunan-hyder, sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad cyfrifol, moesol tuag at ei gilydd a thuag at gyfoedion ac oedolion.

Arwyddwyd gan y Cyngor Ysgol:

Medi 2022
Dyddiad adolygu Medi 2024